**Cyfeirnod:** IR812

**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Chwefror 2022

# Taliadau a wnaed i elusennau a sefydliadau trydydd sector.

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 1 Chwefror 2022, lle gofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â thaliadau a wnaed i elusennau a sefydliadau trydydd sector.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn print trwm, gan nodi ein hymatebion cyfatebol:

**Dyma gais am wybodaeth mewn perthynas â thaliadau a wnaed i elusennau a sefydliadau trydydd sector.**

**A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer 2018-19, 2019-20 a 2020-21:**

- **Gwerth y grantiau a wnaed i bob un o'r sefydliadau a restrir isod. A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol ar wahân, a rhestru pob grant ar wahân.**

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud grantiau i unrhyw elusennau na sefydliadau trydydd sector.

- **Gwerth benthyciadau a wnaed i bob un o'r sefydliadau a restrir isod. A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol ar wahân, a rhestru pob benthyciad ar wahân.**

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud benthyciadau i unrhyw elusennau na sefydliadau trydydd sector.

**Mae'r taliadau a wnaed i elusennau a sefydliadau trydydd sector yn ymwneud â'r canlynol yn unig:**

- **Y Gymdeithas Frenhinol er Iechyd Cyhoeddus (RSPH)**
- **SAGE Annibynnol**

- **Cydffederasiwn y GIG**
- **Keep our NHS public**
- **SOS NHS**
- **Care and Support Workers Organise**
- **UNITED VOICES OF THE WORLD**
- **Health Campaigns Together**
- **Doctors for the NHS**
- **We Own It**
- **Cynulliad y Bobl / The People's Assembly**
- **Zero Covid Coalition**
- **Health Campaign Together**
- **Docs Not Cops**
- **Cymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd**
- **Cymdeithas Meddygon Pacistanaidd Gogledd Ewrop**
- **Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol**
- **Y Coleg Offthalmoleg Brenhinol**
- **Coleg Brenhinol y Seiciatryddion**
- **Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr**

Fel y nodir uchod, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud benthyciadau nac yn rhoi grantiau i unrhyw elusennau na sefydliadau trydydd sector.

Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud y ddau daliad canlynol i un o'r sefydliadau yn y rhestr a ddarparwyd yn y cyfnod y gofynnwyd amdano, fel a ganlyn:

**Cydffederasiwn y GIG**

| Cyfnod Cyfrifyddu | Net | TAW | Gros |
|---|---|---|---|
| 2019/009 | 1,000.00 | 200.00 | 1,200.00 |
| 2019/010 | 398.00 | 79.60 | 477.60 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Roedd y taliad o £1000.00 yn ymwneud â phrynu stondin arddangos yng nghynhadledd flynyddol Conffederasiwn GIG Cymru ar 6 Chwefror 2019. Roedd y taliad o £398.00 i ddau o weithwyr SAC fynychu cynhadledd Conffederasiwn Cymru.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Y Swyddog Gwybodaeth